Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Addysg gychwynnol athrawon yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

Hydref 2021



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| Rhaglenni AGA AHO a nifer yr hyfforddeion | 5 |
| Themâu sy’n dod i’r amlwg | 6 |
| **Argymhellion** | **9** |
| **1 – Rhaglenni AGA AHO a nifer yr hyfforddeion** | **10** |
| Darparwyr rhaglenni AGA AHO yng Nghymru yn 2021 | 10 |
| Cyfrifiad o’r hyfforddeion ar raglenni AGA AHO yng Nghymru ym mis Hydref 2019 | 11 |
| **2 – Themâu sy’n dod i’r amlwg** | **18** |
| Cyfeiriad a throsolwg strategol | 18 |
| Profiad addysgu | 19 |
| Mentora | 21 |
| Hyfforddeion sy’n addysgu neu’n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | 22 |
| Rhwydweithiau proffesiynol | 23 |
| Cynnwys y cwricwlwm | 24 |
| Safonau proffesiynol | 26 |
| Statws athro cymwysedig | 26 |
| Hunanwerthuso a throsolwg allanol ar ansawdd | 27 |
| **Atodiad – Dulliau a sail y dystiolaeth** | **28** |
| **Geirfa** | **30** |
| **Cyfeiriadau** | **32** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio i ymateb i gais am adolygiad cyflym yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg i Estyn ar gyfer 2021-2022. Mae'n cefnogi gwaith grŵp llywio datblygu'r gweithlu ôl-16 Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn 2020, y mae Estyn yn aelod ohono. Nod y grŵp yw cynnig arweiniad strategol ar ddatblygu fframwaith datblygu'r gweithlu ôl-16, gan gynnwys gwaith sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r argymhellion o astudiaeth gwmpasu i ddysgu proffesiynol ôl-16 a gynhaliwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019).

Amlinellir yr ymrwymiad i ddiwygiadau yn y sector trwy greu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021c).

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y prif gymwysterau addysg gychwynnol athrawon (AGA) ar gyfer hyfforddeion sydd eisiau addysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) yng Nghymru. Y rhain yw'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), y Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR) a'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (TBA).

Mae'r adroddiad yn defnyddio'r sail dystiolaeth sydd wedi'i hamlinellu yn yr Atodiad. Mae'r adroddiad yn nodi nifer yr hyfforddeion ar raglenni hyfforddiant ym mis Hydref 2019 (er mwyn osgoi anghysondebau oherwydd y pandemig), ac ystod o themâu a ddaeth i'r amlwg o'n sgyrsiau ag arweinwyr cyrsiau, hyfforddeion a rhanddeiliaid eraill.

Er y cynhaliwyd y gweithgarwch ar gyfer yr adroddiad hwn yn ystod cyfnod y cyfyngiadau ar y system addysg a achoswyd gan y pandemig COVID-19, mae'r adroddiad yn ystyried safbwynt tymor hwy ac yn nodi themâu hirsefydledig a systemig yn y sector AGA AHO, yn hytrach nag effaith uniongyrchol y pandemig.

## Cefndir

Mae'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn amrywiol. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn ei gynnwys yn y sectorau y mae eu hymarferwyr yn dilyn rhaglenni AGA AHO, gan gynnwys: y sectorau dysgu oedolion yn y gymuned, dysgu yn y gwaith, addysg uwch, cyfiawnder, ac addysg bellach; hyfforddwyr proffesiynol mewn lleoliadau fel y GIG, yr heddlu, y lluoedd arfog, codi a chario, a chymorth cyntaf; ymarferwyr yn y sector gwirfoddol ac ymarferwyr annibynnol, fel y rhai sy'n cynnig hyfforddiant cerddoriaeth preifat neu hyfforddiant ioga.

Mae'r is-sectorau AHO gwahanol yn defnyddio ystod o dermau gwahanol, fel athro/athrawes, tiwtor, hyfforddwr, darlithydd, cynghorydd hyfforddiant a llawer o rai

eraill i ddisgrifio'r rheiny sy'n cyflwyno ac yn cefnogi dysgu a chynnydd dysgwyr. At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfeiriwn at bob un o'r rheiny yn y rolau hyn fel 'ymarferwyr' ac at ymarferwyr sy'n astudio ar raglenni AGA AHO fel 'hyfforddeion'.

## Cymwysterau ymarferwyr yn y sector AHO

Nododd astudiaeth gwmpasu dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru (2019, t.21) ac astudiaeth gwmpasu gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (2018) fod o leiaf 39 o gymwysterau ar gael i ymarferwyr ac yn cael eu defnyddio gan ymarferwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned. Heblaw am raglenni AGA, nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn, ond maent yn cynnwys: rhaglenni byr math 'cyflwyniad i addysgu'; cymwysterau arbenigol i aseswyr a sicrwydd ansawdd mewn dysgu yn y gwaith; medrau hanfodol, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) a llythrennedd digidol; ymarferwyr cymorth dysgu; a'r rhai sy'n gysylltiedig ag anogaeth, cyngor ac arweiniad.

Mae ffocws yr adroddiad hwn ar y prif gymwysterau addysg a hyfforddiant i'r rhai sy'n dymuno addysgu yn y sector AHO yng Nghymru. Mae rhywfaint o amrywiad rhwng darparwyr o ran union deitlau'r dyfarniadau ond, yn gyffredinol, caiff cymwysterau addysg gychwynnol athrawon AHO eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR). Mae'r cymhwyster hwn yn gofyn i ymgeiswyr fod â gradd pan fyddant yn ymuno â'r rhaglen. Yn nodweddiadol, mae deilliannau'r modiwlau ar lefelau 6 a 7.
- Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR). Fel arfer, mae hwn yn mynnu bod gan ymgeiswyr radd pan fyddant yn ymuno â'r rhaglen. Yn nodweddiadol, mae deilliannau'r modiwlau ar lefelau 5 a 6.
- Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (TBA). Fel arfer, mae hwn yn mynnu bod gan ymgeiswyr gymhwyster lefel 3 o leiaf, a/neu brofiad galwedigaethol yn eu pwnc dewisol pan fyddant yn ymuno â'r rhaglen. Yn nodweddiadol, mae deilliannau'r modiwlau ar lefelau 4 a 5, ond mae o leiaf un darparwr yn cynnig modiwlau ar lefel 6.

Mae cyrsiau wedi'u strwythuro mewn modiwlau y rhoddir gwerthoedd 'credyd' iddynt, yn dibynnu ar faint y modiwl. Caiff modiwlau eu hasesu gan ddefnyddio meini prawf ar lefel 4, 5, 6 neu 7, yn dibynnu ar gynnwys y modiwl, p'un a yw'r modiwl yn cael ei ddilyn ym Mlwyddyn 1 neu Flwyddyn 2 rhaglen ran-amser, cymwysterau blaenorol yr hyfforddai, a nod cyffredinol yr hyfforddai ar gyfer y cwrs (TBA, TBAR neu TAR). Fel arfer, bydd hyfforddai sy'n cwblhau rhaglen wedi cwblhau ystod o fodiwlau ar lefelau gwahanol. Er enghraifft, mae gan raglenni TAR ddeilliannau modiwlau o 60 credyd ar lefel 6 a 60 credyd ar lefel 7, fel arfer.

Y cymwysterau uchod yw'r rhai sydd eu hangen gan sefydliadau addysg bellach (SABau) ar gyfer eu staff addysgu, yn gyffredinol. Ar sail data Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), adroddodd astudiaeth gwmpasu Llywodraeth Cymru fod cymhwyster addysgu gan 86% o'r athrawon hynny mewn SABau a oedd wedi datgan eu cymwysterau (Llywodraeth Cymru, 2019, t.10). Nid yw darparwyr dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ei gwneud yn ofynnol i'w staff fod â'r cymwysterau hyn neu eu caffael, bob tro, ond serch hynny, maent yn eu cydnabod fel

cymwysterau addysgu pwysig. Trwy gydol yr adroddiad hwn, byddwn yn cyfeirio at y TAR, y TBAR a’r TBA yn gyfunol fel ‘rhaglenni AGA’.

## Cyflwyno rhaglenni AGA AHO

Caiff addysg gychwynnol athrawon AHO yng Nghymru ei chyflwyno mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf yw’n uniongyrchol gan sefydliadau addysg uwch (SAUau). Mae hyfforddeion yn cofrestru’n uniongyrchol â’r SAU ac yn mynychu blociau o sesiynau theori yn y SAU. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyfforddeion yn mynychu lleoliadau profiad addysgu wedi’u trefnu gan y SAU mewn sefydliadau addysg bellach (SABau). Mae mwyafrif yr hyfforddeion ar y rhaglenni hyn yn astudio rhaglenni amser llawn sy’n para blwyddyn. Yn nodweddiadol, mae hyfforddeion amser llawn yn cwblhau eu hyfforddiant ‘cyn gwasanaethu’ – hynny yw, nid ydynt wedi’u cyflogi yn y sector AHO adeg yr hyfforddiant, ond y nod yw ennill cymhwyster i gael cyflogaeth yn y sector.

Yr ail fodd cyflwyno yw drwy SABau yn cynnig rhaglenni drwy drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SAU. Yn nodweddiadol, mae’r rhaglenni hyn yn rhai rhan-amser dros gyfnod o ddwy flynedd. Gallai hyfforddeion fod yn rhai ‘cyn gwasanaethu’ er, gan amlaf, byddant yn ymgymryd â’u hyfforddiant mewn swydd. Dyma’r llwybr AGA mwyaf cyffredin i arbenigwyr galwedigaethol nad ydynt yn raddedigion. Lle mae hyfforddeion yn ymgymryd â’u hyfforddiant mewn swydd, caiff eu horiau addysgu dan gontract eu defnyddio ar gyfer elfen profiad addysgu’r cwrs, fel arfer.

Nododd astudiaeth gwmpasu Llywodraeth Cymru (2019, t.26) nad yw data cynhwysfawr ar y nifer sy’n ymgymryd â chymwysterau addysg a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu ôl-16 yn cael ei gyhoeddi. Nid yw Llywodraeth Cymru’n gosod targedau ar gyfer nifer yr hyfforddeion sy’n ymgymryd â hyfforddiant AGA AHO. Rydym yn nodi’r ystod o SAUau a’r SABau sy’n cynnig rhaglenni AGA AHO yng nghorff yr adroddiad hwn, ynghyd â gwybodaeth am y nifer, y modd astudio a chefndir galwedigaethol yr hyfforddeion sy’n ymgymryd â hyfforddiant AGA AHO.

## Safonau proffesiynol yn y sectorau AHO a gorfodol

Mae setiau gwahanol o safonau proffesiynol a gofynion cofrestru proffesiynol yn berthnasol i athrawon yn y sector gorfodol ac ymarferwyr yn y sectorau AHO. Yn wahanol i addysg orfodol a’r proffesiwn gwaith ieuenctid, ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru’n gosod unrhyw gymwysterau nac AGA gorfodol ar gyfer cofrestru proffesiynol i’r sectorau AHO (gweler Cyngor y Gweithlu Addysg, 2021a).

I gofrestru’n weithiwr proffesiynol i addysgu yn y sector gorfodol mewn ysgol a gynhelir (a ariennir gan y wladwriaeth) yng Nghymru, rhaid i athrawon dan hyfforddiant ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) – gweler Llywodraeth Cymru (2021a). Caiff hyn ei wneud drwy fodloni set o safonau proffesiynol, sef y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, sydd wedi’u pennu mewn deddfwriaeth (Llywodraeth Cymru, 2017c). Mae rhaglenni AGA yn y sector gorfodol wedi’u llunio i fodloni’r safonau proffesiynol hyn. Ar ôl cwblhau’r rhaglenni hyn yn llwyddiannus, mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn rhoi tystysgrif Statws Athro Cymwysedig (SAC) i hyfforddeion. Yna, rhaid i athrawon newydd gymhwyso yn y sector gorfodol gwblhau cyfnod ymsefydlu cyn cael tystysgrif ymsefydlu gan CGA.

Nid yw rhaglenni AGA yn y sector AHO yn arwain at Statws Athro Cymwysedig, ac felly nid yw ymarferwyr sy’n cwblhau rhaglen AGA AHO wedi’u cymhwyso i addysgu yn y sector gorfodol a gynhelir. Nid yw’n ofynnol i ymarferwyr sy’n cwblhau rhaglen AGA AHO gwblhau cyfnod ymsefydlu.

Yn y sectorau AHO, datblygwyd y *Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon Addysg Bellach ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2017b) ar y cyd ag ymarferwyr ar draws y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith, gyda’r bwriad y byddant yn ddefnyddiol at ystod eang o ddibenion ar draws y sectorau ôl-orfodol. Maent yn ymgorffori’r cysyniad o ‘broffesiynoldeb deuol’ - “y gall nifer o ymarferwyr fod yn arbenigwyr pwnc a galwedigaethol, ac yn arweinwyr ac arbenigwyr addysgu, dysgu ac asesu” (Llywodraeth Cymru 2017b, t.8). Yn wahanol i’r safonau ar gyfer athrawon yn y sector gorfodol, ni fwriadwyd i’r safonau AHO fod yn statudol, nac yn fodd o asesu cymhwysedd, ond yn hytrach, i ddarparu fframwaith ar gyfer dysgu proffesiynol parhaus, a hyrwyddo arfer gwell drwy hunanfyfyrio a chydweithio.

Nid oes unrhyw ofyniad i raglenni AGA AHO gael eu strwythuro’n benodol o gwmpas y safonau. Mae’r adroddiad hwn yn ceisio mesur i ba raddau y caiff y safonau proffesiynol eu hystyried wrth lunio rhaglenni AGA AHO.

## Ansawdd y ddarpariaeth

Er bod Estyn yn arolygu addysg gychwynnol athrawon yn y sector gorfodol, nid yw Estyn na’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) – sef y corff sicrhau ansawdd ar gyfer addysg uwch – yn cynnal arolygiadau systematig nac adolygiad ansawdd allanol arall o ddarpariaeth AGA AHO. Mae gan Estyn bwerau statudol i arolygu ystod o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, er y byddai angen rheoliad ychwanegol i alluogi Estyn i gynnal arolygiadau o addysg gychwynnol athrawon AHO.

Mae astudiaeth gwmpasu Llywodraeth Cymru (2019, tt.27-32) yn cynnig cipolygon defnyddiol i feysydd posibl lle y gall ansawdd fod o bryder. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cwricwlwm a oedd yn ‘draddodiadol iawn’ a ‘heb fod yn gyfredol’
- Diffyg hyblygrwydd a gallu i ymateb i faterion cyfredol, fel yr agenda diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY), Sgiliau Hanfodol Cymru, y Gymraeg, diwygio’r cwricwlwm (Cwricwlwm i Gymru), addysgeg ddigidol a’r fframwaith arolygu cyffredin

Yn yr adroddiad hwn, trafodwn ystod o themâu a ddaeth i’r amlwg o’n trafodaethau ag arweinwyr cyrsiau a staff cyflwyno, hyfforddeion a rhanddeiliaid eraill, sy’n dangos cryfderau a diffygion posibl yn y sector.

# Prif ganfyddiadau

## Rhaglenni AGA AHO a nifer yr hyfforddeion

1 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata cenedlaethol yn cael ei gasglu ar gyfer nifer yr hyfforddeion sy'n ymgymryd â rhaglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO), eu deilliannau na'u cyrchfannau. Cynhaliom arolwg o bob darparwr AGA AHO yng Nghymru – sefydliadau addysg bellach (SABau) a sefydliadau addysg uwch (SAUau) – i ddarganfod ystod y ddarpariaeth yn 2021 a nifer yr hyfforddeion ar eu rhaglenni AGA AHO ym mis Hydref 2019.

2 Mae saith SAU yn cynnig rhaglenni naill ai drwy 'ddarpariaeth uniongyrchol', lle mae'r SAU yn cofrestru hyfforddeion yn uniongyrchol; neu drwy drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SABau, lle caiff hyfforddeion eu cofrestru drwy'r SAB, eu haddysgu yn adeiladau'r SAB, a lle cânt eu dyfarniad gan y SAU, yn y pen draw. Mae un ar ddeg o SABau yn cynnig rhaglenni drwy drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SAUau.

3 Roedd cyfanswm o 899 o hyfforddeion yn hyfforddi ym mis Hydref 2019. Roedd 72 y cant ohonynt yn astudio mewn SABau a 28 y cant mewn SAUau. Roedd 81 y cant o'r hyfforddeion yn astudio ar sail ran-amser. Roedd cyfran uwch o hyfforddeion rhan-amser mewn SABau, lle'r oedd bron pob un o'r hyfforddeion (98%) yn astudio'n rhan-amser. Mewn SAUau, roedd 36 y cant o hyfforddeion yn astudio'n rhan-amser.

4 Roedd 68 y cant o'r hyfforddeion yn raddedigion. Roedd bron pob un (99%) o'r hyfforddeion amser llawn yn raddedigion. Roedd llai (60%) o'r hyfforddeion rhan-amser yn raddedigion. Roedd cyfran uwch o'r hyfforddeion rhan-amser mewn SAUau yn raddedigion (76%), o gymharu â'r hyfforddeion rhan-amser mewn SABau (58%).

5 Rydym yn gwybod beth yw cefndir galwedigaethol 765 o'r 899 hyfforddai (85%). O'r rhain, roedd tua hanner ohonynt yn gwneud eu hyfforddiant 'cyn gwasanaethu', hynny yw, nid oeddent wedi'u cyflogi yn y sector AHO adeg yr hyfforddiant. Roedd y gweddill yn gwneud eu hyfforddiant 'mewn swydd', hynny yw, roeddent wedi'u cyflogi neu'n addysgu'n wirfoddol mewn un o'r sectorau AHO. Roedd y rhan fwyaf (94%) o'r hyfforddeion amser llawn yn gwneud eu hyfforddiant cyn gwasanaethu, o gymharu â 40 y cant o'r hyfforddeion rhan-amser.

6 O'r hyfforddeion rhan-amser a oedd yn gwneud eu hyfforddiant mewn swydd, roedd 64% o'r rheiny rydym yn gwybod beth yw eu cefndir galwedigaethol wedi'u cyflogi mewn colegau addysg bellach, a'r gweddill ohonynt wedi'u cyflogi'n hyfforddwyr proffesiynol (11%), yn y sector dysgu yn y gwaith (10%), y sector dysgu oedolion yn y gymuned (6%), y sector addysg uwch (4%); neu'n addysgu yn y sector gwirfoddol (5%).

7 Dim ond 34 (4%) o'r hyfforddeion a gwblhaodd unrhyw agwedd ar eu profiad addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 25 o'r rhain yn astudio mewn un SAB. Dim

ond 12 (1%) o hyfforddeion a gwblhaodd agweddau ar eu rhaglen hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. At ei gilydd, dim ond chwech o'r cyfanswm o 16 sefydliad sy'n cyflwyno hyfforddiant a oedd â hyfforddeion a oedd naill ai'n addysgu neu'n cwblhau agweddau ar eu rhaglenni drwy gyfrwng y Gymraeg.

8 Rydym yn gwybod beth yw lefel uchaf deilliannau modiwlau ar gyfer 805 o'r 899 o hyfforddeion (90%). O'r rhain, cyfran yr hyfforddeion a gwblhaodd eu rhaglenni â lefel uchaf eu deilliannau modiwlau ar lefel 5 oedd 32%. Mae hyn yn gyson â chyfran yr hyfforddeion nad oeddent yn raddedigion ac y disgwylir iddynt ennill TBA. Y gyfran a gyflawnodd eu deilliannau modiwlau uchaf ar lefel 6 neu lefel 7 oedd 60% ac 8%, yn ôl eu trefn. Mae hyn hefyd yn gyson â chyfran yr hyfforddeion a oedd yn raddedigion ac y disgwylir iddynt gyflawni TBAR neu TAR.

## Themâu sy'n dod i'r amlwg

9 Mae arweinwyr cyrsiau AGA AHO yn dra ymrwymedig i'w hyfforddeion a'u rhaglenni. Maent yn gwerthfawrogi rôl bwysig rhaglenni AGA AHO mewn hyfforddi'r gweithlu ôl-16. Mewn llawer o achosion, roedd arweinwyr cyrsiau'n mynd i gryn drafferth i geisio sicrhau bod gan hyfforddeion leoliadau addysgu cefnogol ac arweiniad gan fentoriaid yn y gweithle neu'r lleoliad addysgu. Roeddent yn nodi'r cynnydd cyflym a wnaed gan hyfforddeion o ran datblygu medrau addysgu ac academaidd, yn enwedig yr hyfforddeion hynny â chefndiroedd galwedigaethol y mae'n bosibl nad oeddent wedi cael profiad o ddysgu ar lefelau addysg uwch o'r blaen.

10 Cododd bron pob un o'r arweinwyr cyrsiau ac uwch reolwyr colegau y diffyg trosolwg strategol cenedlaethol ar gyfer y sector AGA AHO. Yn yr adroddiad hwn, nodwn sawl thema sy'n gysylltiedig â'r diffyg cyfeiriad, cynllunio a throsolwg strategol cenedlaethol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn y sector AHO. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynllunio darpariaeth a chasglu data ar lefel genedlaethol
- cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau proffesiynol cydweithredol
- ansawdd a chysondeb profiad addysgu a mentora
- partneriaethau rhwng sefydliadau sy'n cyflwyno hyfforddiant ac yn darparu lleoliadau
- addasrwydd fframweithiau cwricwlwm ar gyfer hyfforddeion.

11 Mae pwysigrwydd lleoliad profiad addysgu wrth ddatblygu medrau addysgu yn werthfawr i arweinwyr cyrsiau a hyfforddeion. Gan fod pob rhaglen AGA AHO yn rhaglen gyffredinol – nid oes pwnc yn sail iddi – mae profiad addysgu'n rhoi cyfleoedd hanfodol i hyfforddeion ddatblygu'u medrau addysgu galwedigaethol neu bwnc ac i gysylltu'r agweddau damcaniaethol ar eu cwrs ag ymarfer. Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr cwrs ar draws y sector AGA AHO fod trefnu lleoliadau addysgu'n faich sylweddol o ran amser. Yn aml, roedd lleoliadau profiad addysgu yn dibynnu ar drefniadau ad-hoc, cysylltiadau personol arweinwyr cyrsiau ac ewyllys da darparwyr i groesawu hyfforddeion. Mewn ychydig o achosion, mae anawsterau o ran perthnasoedd rhwng darparwyr AGA a cholegau lleol yn golygu nad yw hyfforddeion yn gallu manteisio ar leoliadau addysgu priodol yn eu hardal leol.

12 Roedd ansawdd y cymorth gan fentoriaid yn y gweithle neu fentoriaid lleoliadau addysgu yn amrywio. Lle'r oedd cymorth gan fentoriaid yn gryf, roedd hyfforddeion yn gweld yr arweiniad penodol i'r pwnc a roddwyd gan fentor ymrwymedig yn amhrisiadwy. Crybwyllodd arweinwyr cyrsiau fod gan lawer o hyfforddeion fentor yn y gweithle, a bod llawer o fentoriaid yn cynnig cymorth cryf ac effeithiol. Fodd bynnag, crybwyllodd bron pob arweinydd cwrs, mewn SABau a SAUau, fod darparu cymorth mentora o ansawdd da yn y gweithle neu ar leoliadau yn drafferthus. Mae darparu mentoriaid yn y gweithle neu ar leoliad yn dibynnu ar ewyllys da, i raddau helaeth. Ar gyfer SABau, a SAUau lle nad oes unrhyw gytundebau clir yn ymwneud â lefel ac ansawdd y mentora sydd ei angen ar leoliad, yn gyffredinol, nid yw mentoriaid yn cael eu rhyddhau o rai o'u hymrwymiadau addysgu i gefnogi eu hyfforddeion. Yn aml, nid yw mentoriaid yn cael hyfforddiant penodol, ac efallai nad ydynt yn gwbl ymwybodol o ofynion rhaglen AGA eu hyfforddeion, nac o'r rôl hanfodol y gall mentoriaid ei chwarae o ran meithrin datblygiad eu hyfforddeion.

13 Roedd cyfran yr hyfforddeion dan hyfforddiant yn 2019 a oedd yn ymgymryd ag unrhyw agwedd ar eu profiad addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn sylweddol is na'r gweithlu presennol. Nid yw'r rhagolygon hyn yn galonogol ar gyfer y dyhead yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* i ehangu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

14 At ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i arweinwyr cyrsiau a thimau cyrsiau ar draws y sector AGA AHO gyfarfod, datblygu addysgeg a rhannu arfer dda. Er bod rhwydwaith presennol ar gyfer arweinwyr cyrsiau SAUau, nid yw'n cynnwys arweinwyr cyrsiau o SABau. Nid yw arweinwyr cyrsiau mewn SABau sy'n unig ddarparwyr SAB yn eu masnachfraint yn cael cyfleoedd ffurfiol i gyfarfod â chydweithwyr AGA AHO y tu allan i'w coleg eu hunain.

15 Mae SAUau yn pennu cynnwys y cwricwlwm ar gyfer eu rhaglenni AGA AHO. Rhaid i raglenni AGA AHO fodloni anghenion grŵp amrywiol o hyfforddeion. Crybwyllodd arweinwyr cyrsiau fod cynnwys cwricwlwm eu rhaglenni yn bodloni anghenion eu hyfforddeion, yn gyffredinol. Er y bu gwelliannau o ran cynnwys dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, roedd arweinwyr cyrsiau, yn enwedig o SABau, yn teimlo y gellid datblygu cynnwys yn fwy ymgynghorol, a nodont feysydd lle y gellid gwneud cynnwys cyrsiau yn fwy perthnasol, gan gynnwys yn gysylltiedig â:

- datblygu addysgeg benodol i'r pwnc, yn enwedig mewn pynciau ymarferol neu alwedigaethol
- dylunio'r cwricwlwm a chynllunio cynlluniau dysgu
- addysgeg ddigidol a dysgu cyfunol
- rheoli ymddygiad heriol dysgwyr
- codi statws portffolio tystiolaeth o brofiad addysgu i ddarparu tystiolaeth o ddatblygiad medrau addysgu a chymhwysedd addysgu, a gwneud mwy o ddefnydd ohono
- cynllunio'r addysgu ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a goblygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018) a gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021b)

16 Crybwyllodd yr holl arweinwyr cyrsiau SAUau fod eu rhaglenni wedi'u datblygu drwy ystyried y safonau proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2017b). Roedd pob un ohonynt wedi cynnal 'ymarfer mapio', o leiaf, i ddarganfod lle'r oedd y safonau a chynnwys eu cwricwlwm yn croesi ar draws ei gilydd. Disgrifiodd ychydig ohonynt eu bod yn defnyddio'r safonau mewn briffiau aseiniadau. Ni chrybwyllodd unrhyw un ohonynt eu bod yn defnyddio'r safonau fel man cychwyn ar gyfer llunio eu rhaglenni neu gynnwys y cwricwlwm. Crybwyllodd ychydig ohonynt eu bod hefyd yn ystyried y safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr AU (AdvanceHE, 2011) ac ymarferwyr ôl-16 yn Lloegr (Education and Training Federation, 2014).

17 Mae diffyg eglurder am strategaeth gyffredinol datblygu'r gweithlu ar gyfer y sector AHO. Nid oes ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol fel y mae ar gyfer y sector addysg orfodol. Mae hyn yn golygu nad oes gan hyfforddeion sy'n cwblhau rhaglenni AGA AHO yn llwyddiannus hawl gyffredin i gyfnod ymsefydlu ac nid ydynt yn gymwys i gael Statws Athro Cymwysedig (SAC). Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw lwybr cydnabyddedig i 'drosi' o gymhwyster AGA AHO i gymhwyster AGA sy'n rhoi SAC, a fyddai'n galluogi ymarferwr i weithio fel athro cwbl gymwys mewn ysgol a gynhelir yn ystod ei yrfa.

18 Ychydig iawn o wybodaeth systematig sydd ar gael am y sector yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn cyfyngu ar allu darparwyr i werthuso eu darpariaeth, neu werthuso'r sector yn ei gyfanrwydd. Ar hyn o bryd, nid yw Estyn na QAA yn cynnal arolygiad systematig neu adolygiad ansawdd allanol o ddarpariaeth AGA AHO, ac mae hyn yn cyfrannu at y prinder gwybodaeth ar draws y sector.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Gynnal adolygiad strwythurol o ddarpariaeth AGA AHO, sy’n ystyried y themâu sy’n dod i’r amlwg a nodir yn yr adroddiad hwn ac anghenion datblygu ehangach y gweithlu

A2 Sicrhau y caiff data sy’n ymwneud â nifer, deilliannau a chyrchfannau hyfforddeion ar raglenni AGA AHO ei gasglu a’i gyhoeddi’n rheolaidd

A3 Brocera cyfleoedd i arweinwyr cyrsiau a staff cyflwyno mewn SABau a SAUau i ddatblygu rhwydweithiau dysgu proffesiynol sy’n canolbwyntio ar addysgeg AGA AHO

A4 Datblygu cymhelllion i annog hyfforddeion i addysgu ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

**Dylai darparwyr:**

A5 Wella darpariaeth mentora i hyfforddeion AGA

A6 Cynyddu’r cyfleoedd i hyfforddeion ymgymryd â’u profiad addysgu a chwblhau agweddau ar eu rhaglen hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

A7 Sicrhau bod pob hyfforddai yn cael lleoliadau profiad addysgu o ansawdd uchel sy’n cynnig cyfleoedd iddynt arsylwi arfer addysgu gref a datblygu medrau addysgu cynhwysfawr

A8 Sicrhau bod pob rhaglen AGA AHO yn ddigon hyblyg i fodloni anghenion yr ystod lawn o hyfforddeion

A9 Sicrhau y caiff rhaglenni eu llunio ar y cyd, gan ystyried anghenion hyfforddeion mewn SAUau a SABau, ac mewn ymgynghoriad â chyflogwyr AHO.

# 1 – Rhaglenni AGA AHO a nifer yr hyfforddeion

## Darparwyr rhaglenni AGA AHO yng Nghymru yn 2021

Mae Tabl 1 yn dangos crynodeb o'r darparwyr rhaglenni AGA AHO. Mae saith SAU yn cynnig rhaglenni, naill ai: drwy 'ddarpariaeth uniongyrchol', lle mae'r SAU yn cofrestru hyfforddeion yn uniongyrchol; neu drwy drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SABau, lle caiff hyfforddeion eu cofrestru drwy'r SAB, eu haddysgu yn adeiladau'r SAB, a lle cânt eu dyfarniad gan y SAU, yn y pen draw.

**Tabl 1 – crynodeb o'r darparwyr AGA AHO**

| SAU | Darpariaeth uniongyrchol amser llawn | Darpariaeth uniongyrchol ran-amser | Trefniant masnachfraint neu bartneriaeth â SAB(au) | SAB(au) yn y trefniadau masnachfraint neu bartneriaeth (Darpariaeth amser llawn / rhan-amser) |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Nac oes | Nac oes | Oes | Coleg Cambria (amser llawn a rhan-amser) |
| Prifysgol Bangor | Nac oes | Nac oes | Oes | Grŵp Llandrillo Menai (rhan-amser) |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Nac oes | Oes | Nac oes | - |
| Prifysgol Caerdydd (gweler y nodyn yn y paragraff isod am atal oherwydd COVID-19) | Oes | Nac oes | Nac oes | - |
| Prifysgol De Cymru | Oes | Oes | Oes | Coleg Penybont (rhan-amser)<br>Coleg Caerdydd a'r Fro (rhan-amser)<br>Coleg Gwent (rhan-amser)<br>Coleg y Cymoedd (rhan-amser)<br>Coleg Gŵyr Abertawe (rhan-amser)<br>Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot (rhan-amser)<br>Coleg Merthyr Tudful (rhan-amser) |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Oes | Oes | Oes | Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion (rhan-amser)<br>Coleg Sir Benfro (rhan-amser) |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Oes | Oes | Nac oes | - |

Mae pump o'r SAUau yn cynnig darpariaeth uniongyrchol, naill ai ar sail amser llawn neu ran-amser, neu'r ddau ohonynt. Fel arfer, caiff rhaglenni amser llawn eu cwblhau dros flwyddyn, a rhaglenni rhan-amser dros ddwy flynedd.

Mae gan bedwar SAU drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SABau. Prifysgol De Cymru sydd â'r fasnachfraint fwyaf, ac mae ganddi saith o bartneriaid SAB. Mae gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ddau bartner SAB. Nid yw Prifysgol Aberystwyth na Phrifysgol Bangor yn cynnig darpariaeth uniongyrchol ond mae ganddynt drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth ag un SAB yr un. Mae pob SAB yng Nghymru, heblaw Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant ac Addysg Oedolion Cymru (sef darparwyr arbenigol darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned), yn cynnig rhaglenni AGA AHO drwy drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SAUau.

Fel arfer, mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig rhaglenni amser llawn uniongyrchol, er yr ataliwyd y rhain yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022 oherwydd yr heriau, gan gynnwys sicrhau lleoliadau addysgu, a achoswyd gan y pandemig COVID-19.


Nid yw'r Brifysgol Agored yn cynnig rhaglenni AGA AHO yng Nghymru ar hyn o bryd.

### Cyfrifiad o hyfforddeion ar gyrsiau AGA AHO yng Nghymru ym mis Hydref 2019

Cawsom ymatebion gan yr holl ddarparwyr sy'n cynnig rhaglenni AGA AHO yng Nghymru. Gofynnom am ddata ar gyfer mis Hydref 2019 er mwyn osgoi unrhyw batrymau recriwtio neu gadw anarferol oherwydd y pandemig COVID-19. Ni roddodd ychydig iawn o ddarparwyr ymatebion manwl i'r holl gwestiynau yn arolwg ein cyfrifiad, felly mae rhai ymatebion 'nid yw'n hysbys / heb ateb' i gwestiynau'n ymwneud â nifer yr hyfforddeion rhan-amser sy'n raddedigion / ddim yn raddedigion (Tabl 4), a chefndir galwedigaethol hyfforddeion (Tabl 5).

**Tabl 2 – Hyfforddeion ym mis Hydref 2019 yn ôl y math o ddarparwr a'r modd astudio**

| Math o sefydliad | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **SAU** | 158 | 90 | 248 |
| **SAB** | 14 | 637 | 651 |
| **Cyfamswm** | 172 | 725 | 899 |




Roedd cyfanswm o 899 o hyfforddeion yn hyfforddi ym mis Hydref 2019. O'r rhain, roedd 72% ohonynt yn astudio mewn SABau, a'r 28% sy'n weddill mewn SAUau.

At ei gilydd, roedd 81% o'r hyfforddeion yn astudio'n rhan-amser. Roedd 88% o'r hyfforddeion rhan-amser yn astudio mewn SABau.

Mewn SABau, roedd bron pob un o'r hyfforddeion (98%) ar raglenni rhan-amser. I'r gwrthwyneb, mewn SAUau, roedd 36% o'r hyfforddeion yn astudio'n rhan-amser.

Er mwyn gallu cymharu, yn 2018-2019, cychwynnodd 1,065 o hyfforddeion ar gyrsiau AGA ar gyfer y sector gorfodol: sef 585 ar gyrsiau ysgol gynradd a 480 ar gyrsiau ysgol uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2020a).

**Tabl 3 – Hyfforddeion yn ôl y math o sefydliad a'r modd astudio**

| Math o sefydliad | Modd astudio | Nifer y darparwyr | Hyfforddeion cymedrig | Uchafswm yr hyfforddeion | Isafswm yr hyfforddeion |
|---|---|---|---|---|---|
| **SAU** | Amser llawn uniongyrchol | 4 | 40 | 55 | 23 |
| | Rhan-amser uniongyrchol[1] | 4 | 23 | 42 | 15 |
| **SAB** | Amser llawn | 1 | 14 | 14 | 14 |
| | Rhan-amser[1] | 11 | 58 | 90 | 24 |

Ym mis Hydref 2019, roedd pedwar SAU yn cynnig darpariaeth amser llawn, a phedwar yn cynnig darpariaeth ran-amser. Roedd un SAB yn cynnig darpariaeth amser llawn. Roedd 11 o SABau yn cynnig darpariaeth ran-amser.

[1] Niferoedd cyfunol ar gyfer Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

**Tabl 4 – Hyfforddeion a oedd yn raddedigion neu nad oeddent yn raddedigion yn ôl y modd astudio a'r math o sefydliad**


| Modd astudio a'r math o sefydliad | Graddedigion | Ddim yn raddedigion | Nid yw'n hysbys / Heb ateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Amser llawn mewn SAB** | 12 | 2 | - | 14 |
| **Amser llawn mewn SAU** | 158 | 0 | - | 158 |
| *Is-gyfanswm amser llawn* | *170* | *2* | - | *172* |
| **Rhan-amser mewn SAB** | 369 | 266 | 2 | 637 |
| **Rhan-amser mewn SAU** | 68 | 22 | - | 90 |
| *Is-gyfanswm rhan-amser* | *437* | *288* | *2* | *727* |
| **Cyfanswm** | **607** | **290** | **2** | **899** |

At ei gilydd, roedd 68% o'r hyfforddeion yn raddedigion. Road bron pob un o'r 172 o hyfforddeion amser llawn yn raddedigion (99%).

Roedd 727 o hyfforddeion rhan-amser. Roedd 60% o'r hyfforddeion rhan-amser yn raddedigion. O'r 635 o hyfforddeion rhan-amser mewn SABau yr oedd eu statws yn hysbys, roedd 58% ohonynt yn raddedigion. Roedd cyfran yr hyfforddeion rhan-amser a oedd yn astudio mewn SAUau a oedd yn raddedigion yn uwch, sef 76%.

**Tabl 5 – Cefndir galwedigaethol hyfforddeion**

| Cefndir galwedigaethol | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Heb eu cyflogi yn y sector AHO ar hyn o bryd, ond yn ceisio ennill cymhwyster er mwyn cael eu cyflogi yn y sector** | 161 | 237 | 398 |
| **Wedi eu cyflogi mewn coleg addysg bellach, yn ymgymryd â'u hyfforddiant mewn swydd** | 1 | 228 | 229 |
| **Wedi eu cyflogi gan ddarparwr dysgu yn y gwaith, yn ymgymryd â'u hyfforddiant mewn swydd** | 4 | 34 | 38 |
| **Wedi eu cyflogi mewn sefydliad addysg uwch, yn ymgymryd â'u hyfforddiant mewn swydd** | 2 | 16 | 18 |
| **Yn addysgu (naill ai ar sail amser llawn neu ran-amser) yn y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) yn bennaf** | 1 | 22 | 23 |
| **Wedi eu cyflogi'n hyfforddwyr proffesiynol fel hyfforddwyr yr heddlu, y GIG, y lluoedd arfog, hyfforddwyr cymorth cyntaf neu hyfforddwyr codi a chario** | 2 | 39 | 41 |
| **Ymarferwyr sy'n addysgu nifer fach o oriau yn y sector gwirfoddol** | 1 | 17 | 18 |
| *Is-gyfanswm hysbys* | *172* | *593* | *765* |
| **Arall** | 0 | 14 | 14 |
| **Nid yw'n hysbys / Heb ateb** | 0 | 120 | 120 |
| **Cyfanswm** | **172** | **727** | **899** |


Cefndir galwedigaethol
Amser llawn
Rhan-amser
Hyfforddeion
250
200
150
100
50
0
Heb eu cyflogi yn y sector AHO ar hyn o bryd, ond yn ceisio ennill cymhwyster er mwyn cael eu cyflogi yn y sector
Wedi eu cyflogi mewn coleg addysg bellach, yn ymgymryd â'u hyfforddiant mewn swydd
Wedi eu cyflogi gan ddarparwr dysgu yn y gwaith, yn ymgymryd â'u hyfforddiant mewn swydd
Wedi eu cyflogi mewn sefydliad addysg uwch, ymgymryd â'u hyfforddiant mewn swydd
Yn addysgu (naill ai ar sail amser llawn neu ran-amser) yn y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) yn bennaf
Wedi eu cyflogi'n hyfforddwyr proffesiynol fel hyfforddwyr yr heddlu, y GIG, y lluoedd arfog, hyfforddwyr cymorth cyntaf neu hyfforddwyr codi a chario
Ymarferwyr sy'n addysgu nifer fach o oriau yn y sector gwirfoddol
Arall
Nid yw'n hysbys / Heb ateb

At ei gilydd, o’r 765 o hyfforddeion yr oedd eu cefndir galwedigaethol yn hysbys, roedd 52% ohonynt yn ymgymryd â’u hyfforddiant ‘cyn gwasanaethu’ – hynny yw, nid oeddent wedi’u cyflogi yn y sector AHO adeg yr hyfforddiant, ond eu nod oedd ennill cymhwyster er mwyn cael eu cyflogi yn y sector. Roedd y 48% a oedd yn weddill yn ymgymryd â’u hyfforddiant mewn swydd, tra’r oeddent wedi’u cyflogi neu’n addysgu’n wirfoddol mewn un o’r sectorau ôl-16.

Roedd 94% o’r 172 o hyfforddeion amser llawn yn ymgymryd â’u hyfforddiant cyn gwasanaethu. Roedd ychydig iawn ohonynt eisoes wedi’u cyflogi yn y sectorau ôl-16 tra’r oeddent yn ymgymryd â’u hyfforddiant amser llawn.

Nid ydym yn gwybod beth yw cefndir galwedigaethol 120 o’r hyfforddeion rhan-amser. Nodwyd bod 14 arall yn y categori ‘Arall’. O’r 593 a oedd yn weddill, roedd 40% ohonynt yn ymgymryd â’u hyfforddiant cyn gwasanaethu. Roedd y gweddill ohonynt yn ymgymryd â’u hyfforddiant mewn swydd neu’n addysgu’n wirfoddol. O’r 356 o hyfforddeion rhan-amser mewn swydd y mae eu cefndir galwedigaethol yn hysbys, roedd 64% ohonynt wedi’u cyflogi yn y sector addysg bellach. Roedd ychydig o hyfforddeion wedi’u cyflogi’n hyfforddwyr proffesiynol (11%); neu wedi’u cyflogi yn y sector dysgu yn y gwaith (10%), y sector dysgu oedolion yn y gymuned (6%), y sector addysg uwch (4%); neu’n addysgu yn y sector gwirfoddol (5%).

Crybwyllodd un SAU ei fod yn cynnal rhaglen AGA AHO bwrpasol i hyfforddwyr yn yr heddlu. Nid yw’r hyfforddeion hyn wedi’u cynnwys yn y data hwn.

**Tabl 6 – Hyfforddeion sy’n addysgu neu’n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

| Cwestiwn | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Hyfforddeion sy’n ymgymryd ag unrhyw ran o’u hymarfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? | 2 | 32 | 34 |
| Hyfforddeion sy’n cwblhau agweddau ar eu rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg? | - | 12 | 12 |

Ychydig iawn o hyfforddeion a oedd yn ymgymryd ag unrhyw ran o’u profiad addysgu (4%) neu’n cwblhau agweddau ar eu rhaglen hyfforddiant (1%) drwy gyfrwng y Gymraeg.

At ei gilydd, dim ond chwe sefydliad a oedd â hyfforddeion a oedd naill ai’n addysgu neu’n ymgymryd ag agweddau ar eu rhaglenni drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y ddau hyfforddai amser llawn a oedd yn ymgymryd â rhywfaint o’u profiad addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn un SAU. O’r 32 o hyfforddeion rhan-amser a oedd yn ymgymryd â rhywfaint o’u profiad addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd 25 ohonynt mewn un SAB, ac roedd y saith a oedd yn weddill wedi’u dosrannu rhwng tri SAB ac un SAU. Roedd y 12 o hyfforddeion a oedd yn cwblhau agweddau ar eu rhaglenni (er enghraifft, aseiniadau) drwy gyfrwng y Gymraeg wedi’u dosrannu rhwng tri SAB ac un SAU.

**Tabl 7 – Lefel uchaf deilliant modiwlau**

| Disgwylir i hyfforddeion yn y garfan hon gwblhau eu cymhwyster addysgu ar: | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Lefel 5** | 1 | 253 | 254 |
| **Lefel 6** | 86 | 398 | 484 |
| **Lefel 7** | 57 | 10 | 67 |
| **Is-gyfanswm** | 144 | 661 | 805 |
| **Nid yw'n hysbys / Heb ateb** | 28 | 66 | 94 |
| **Cyfanswm** | 172 | 727 | 899 |

Oherwydd bod rhywfaint o amrywio yn y teitlau y mae gwahanol sefydliadau'n eu rhoi i gymwysterau AGA, gofynnom i ddarparwyr roi gwybodaeth am lefelau deilliannau uchaf hyfforddeion, yn hytrach na nifer yr hyfforddeion yn ennill cymwysterau gwahanol yn ôl eu teitl. Yn nodweddiadol, mae rhaglenni'n cynnwys modiwlau sydd â deilliannau ar ystod o lefelau. Rydym wedi cofnodi lefel uchaf deilliant y modiwlau a grybwyllwyd. Lle y crybwyllodd ymatebwyr lefelau deilliannau cymysg, er enghraifft 'lefel 6/7', rydym wedi cofnodi'r lefel uchaf.

Ar gyfer 94 o'r cyfanswm o 899 o hyfforddeion, nid ydym yn gwybod beth oedd lefel uchaf deilliannau'r modiwlau ar gyfer eu rhaglenni. Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y darparwr yn gwybod neu gan na lenwodd y ffurflen yn llawn ar gyfer yr agwedd hon ar yr arolwg, neu ni chwblhaodd yr hyfforddeion eu rhaglenni'n llwyddiannus ac ennill dyfarniad. Ni ofynnom i ymatebwyr roi data ar nifer yr hyfforddeion a ymadawodd raglenni neu a fethodd ennill dyfarniad terfynol. Felly, ni fyddai'n briodol dod i'r casgliad bod yr holl hyfforddeion nad oes gennym ddata ar eu cyfer wedi ymadael neu wedi methu cwblhau eu rhaglen AGA.

O'r 805 o hyfforddeion y mae eu deilliannau'n hysbys, enillodd 32% ohonynt ddyfarniad â'u modiwlau uchaf ar lefel 5. Mae hyn yn gyson â chyfran yr hyfforddeion nad oeddent yn raddedigion ac y gellid disgwyl iddynt ennill dyfarniad TBA (gweler Tabl 4).

Enillodd 60% o'r hyfforddeion ddyfarniad â'u modiwlau uchaf ar lefel 6, ac wyth y cant ar lefel 7. Mae'r rhain yn gyson â chyfran yr hyfforddeion a oedd yn raddedigion ac y gellid disgwyl iddynt ennill dyfarniad TBAR neu TAR.

## 2 – Themâu sy’n dod i’r amlwg

Rydym wedi grwpio’r materion a ddaeth i’r amlwg o’n sgyrsiau proffesiynol yn gyfres o themâu ac rydym yn archwilio cryfderau neu ddiffygion posibl yn gysylltiedig â phob thema yn y fan hon.

### Cyfeiriad a throsolwg strategol

Roedd yn amlwg o’n trafodaethau ag arweinwyr cyrsiau, mewn SABau a SAUau fel ei gilydd, eu bod yn dra ymrwymedig i’w hyfforddeion a’u rhaglenni. Maent yn gwerthfawrogi rôl bwysig rhaglenni AGA AHO mewn hyfforddi’r gweithlu ôl-16 a chefnogi’r proffesiynoldeb deuol a nodwyd trwy’r safonau proffesiynol. Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr cyrsiau’n mynd i gryn drafferth i geisio sicrhau bod hyfforddeion yn cael lleoliadau addysgu cefnogol ac arweiniad gan fentoriaid yn y gweithle neu ar leoliadau addysgu. Nodant y cynnydd cyflym a wneir gan hyfforddeion o ran datblygu medrau addysgu ac academaidd, yn enwedig yr hyfforddeion hynny â chefndiroedd galwedigaethol y mae’n bosibl nad ydynt wedi cael profiad o ddysgu ar lefel addysg uwch o’r blaen. Adlewyrchwyd hyn yn ein sgyrsiau â grwpiau ffocws o hyfforddeion.

Cododd bron pob un o’r arweinwyr cyrsiau a’r uwch reolwyr colegau y diffyg trosolwg strategol cenedlaethol ar gyfer y sector AGA AHO, a’i le mewn strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu’r gweithle. Nodwn sawl thema sy’n codi o’n sgyrsiau â nhw yn ystod yr adolygiad hwn. Mae’r rhain yn cynnwys: cynllunio darpariaeth a chasglu data ar lefel genedlaethol, cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau proffesiynol, ansawdd a chysondeb profiad addysgu a mentora, partneriaethau rhwng sefydliadau sy’n cyflwyno hyfforddiant ac yn darparu lleoliadau, ac addasrwydd fframweithiau cwricwlwm ar gyfer hyfforddeion. Yn tanategu’r rhain, mae diffyg cyfeiriad strategol, cynllunio a throsolwg cenedlaethol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn y sector AHO.

Mae ein hadroddiad yn cadarnhau’r arsylwadau a grybwyllwyd yn Llywodraeth Cymru (2019), sef nad oes gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chyhoeddi am nifer yr hyfforddeion ar gyrsiau AGA AHO, eu deilliannau na’u cyrchfannau. Cysylltom â phob darparwr unigol o raglenni AGA AHO yng Nghymru i gael ‘cipolwg’ ar eu darpariaeth ar gyfer mis Hydref 2019. Mae gan y ffaith nad yw’r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd oblygiadau o ran cynllunio’r gweithlu, cyllid a gosod targedau, a monitro cynnydd yn erbyn strategaethau cenedlaethol.

Mae’n anodd peidio â chymharu’r strwythurau sy’n cefnogi addysg gychwynnol athrawon ar gyfer AHO yng Nghymru, a’r rhai ar gyfer y sector gorfodol. Yn yr olaf, arweiniodd diwygiadau yn dilyn adolygiadau gan Tabberer (2013) a Furlong (2015) at ailstrwythuro’r ddarpariaeth.

Yn y sector AGA gorfodol, mae partneriaethau diffiniedig erbyn hyn rhwng ysgolion a darparwyr AGA, sy’n cynnig arweinyddiaeth a chyflwyno darpariaeth ar y cyd. Mae’n ofynnol i’r partneriaethau newydd gyd-adeiladu eu rhaglenni a’u cwricwlwm yn unol

â'r meini prawf achredu. Mae Estyn yn arolygu partneriaethau AGA unigol ac mae'n darparu trosolwg o'r sector trwy ei adroddiadau blynyddol a thematig (gweler, er enghraifft, Estyn 2018a, 2019, 2020; ac Estyn 2018b).

Ceir trosolwg strategol gan Lywodraeth Cymru ac mae bwrdd, y mae CGA yn ei ddirprwyo ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr Estyn, yn ymgymryd â phroses achredu a monitro rhaglenni AGA (gweler Cyngor y Gweithlu Addysg, 2021b).

Nid oes strwythurau a phrosesau cyfwerth i gefnogi'r sector AGA AHO, ac mae hyn yn cyfrannu at y diffyg cyfeiriad strategol.

## Profiad addysgu

Mae profiad addysgu yn rhan hanfodol o hyfforddiant athrawon. Gan fod yr holl raglenni AGA AHO yn rhai generig – nid ydynt wedi'u seilio ar bynciau – mae profiad addysgu'n cynnig cyfleoedd hanfodol i hyfforddeion ddatblygu eu medrau addysgu pynciol neu alwedigaethol, a chysylltu'r agweddau damcaniaethol ar eu cyrsiau ag arfer. Yn ein grwpiau ffocws, crybwyllodd llawer o hyfforddeion fwy o hyder a datblygiad cyflym yn eu medrau addysgu wrth iddynt symud drwy'u cyrsiau. Pwysleisiont werth eu lleoliad addysgu yn eu datblygiad. Fodd bynnag, lle'r oedd lleoliadau addysgu o ansawdd gwael, er enghraifft mewn adrannau lle nad yw'r addysgu'n gryf, efallai na fydd hyfforddeion yn gweld addysgu effeithiol o'u cwmpas o ddydd i ddydd, ac efallai na fyddant yn datblygu medrau addysgu pynciol neu alwedigaethol cryf.

Dywedodd arweinwyr cyrsiau ar draws y sector AGA AHO fod trefnu lleoliadau addysgu yn faich sylweddol o ran amser. Yn aml, roedd lleoliadau profiad addysgu'ndibynnu ar drefniadau ad-hoc, cysylltiadau personol arweinwyr cyrsiau, ac ewyllys da darparwyr i groesawu hyfforddeion. Mewn ychydig o achosion, mae anawsterau o ran perthnasoedd rhwng darparwyr AGA a cholegau lleol yn golygu nad yw hyfforddeion yn gallu manteisio ar leoliadau addysgu priodol yn eu hardal leol.

Mae trefniadau ar gyfer profiad addysgu yn amrywio yn amodol ar b'un a yw'r hyfforddai'n hyfforddi cyn gwasanaeth, heb swydd gyfredol yn y sector, neu'n hyfforddi mewn swydd, lle mae gan hyfforddeion swydd yn barod.

### Hyfforddeion cyn gwasanaethu

At ei gilydd, mae'r cyfrifiad yn dangos bod tua hanner yr hyfforddeion (52%) yn astudio cyn gwasanaethu. Roedd 94% o'r hyfforddeion amser llawn a 40% o'r hyfforddeion rhan-amser, y mae eu cefndiroedd galwedigaethol yn hysbys, yn astudio cyn gwasanaethu.

Yn gyffredinol, oni bai y gall hyfforddai drefnu profiad addysgu'n annibynnol, mae darparwyr sy'n cynnig hyfforddiant amser llawn yn trefnu lleoliadau profiad addysgu i'w hyfforddeion. Mae hyn yn achosi heriau gwahanol i SABau a SAUau.

Mae gan SABau ddarpariaeth 'fewnol' helaeth lle gallant leoli hyfforddeion cyn gwasanaethu. Roedd tua phedwar o bob deg (228 o 528 - nad ydynt i'w gweld yn y

tablau uchod) o'r hyfforddeion mewn SABau, y mae eu cefndiroedd galwedigaethol yn hysbys, yn astudio cyn gwasanaethu. Mewn sgyrsiau proffesiynol, dywed arweinwyr cyrsiau y gallant ddod o hyd i gyfleoedd profiad addysgu priodol i ddysgwyr na allant drefnu eu profiad addysgu eu hunain, fel arfer. Mae gan ychydig ohonynt drefniadau anffurfiol â cholegau eraill i ddod o hyd i leoliadau addysgu i'w hyfforddeion cyn gwasanaethu hefyd. Mae arweinwyr cyrsiau ac aelodau tîm yn defnyddio'u cysylltiadau personol a phroffesiynol i ddod o hyd i leoliadau addysgu. Dywed arweinwyr cyrsiau fod trefnu lleoliadau addysgu yn broses sy'n gofyn cryn amser a baich gweinyddol sylweddol. Disgrifiodd un arweinydd cwrs fod y broses o drefnu lleoliadau addysgu yn "mynnu llawer o gariad o'm rhan i".

Mae tua saith o bob deg (170 o 248 - nad ydynt i'w gweld yn y tablau uchod) o'r hyfforddeion sy'n astudio mewn SAUau yn rhai cyn gwasanaethu. Mae'r pump SAU sy'n cynnig darpariaeth uniongyrchol hefyd yn trefnu lleoliadau addysgu i'w hyfforddeion. Mae gan y pump SAU drefniadau hirsefydlog â SABau ar gyfer lleoliadau addysgu. Fodd bynnag, mae perthnasoedd anodd rhwng SAUau a'u SABau lleol mewn rhai ardaloedd yn achosi rhwystr rhag trefnu lleoliadau addysgu priodol gerllaw. O ganlyniad, efallai y bydd rhaid i hyfforddeion deithio pellter hir i ddod o hyd i leoliad addas, neu efallai y byddant yn cael lleoliad addysgu nad yw'n cyfateb yn llwyr i'w pwnc neu arbenigedd galwedigaethol.

Mae mwyafrif y SAUau yn talu ffi i'r sefydliadau sy'n croesawu eu hyfforddeion ar gyfer lleoliadau addysgu, ac mae ganddynt drefniadau ffurfiol sy'n manylu ar y math o leoliad addysgu, nifer yr oriau o brofiad addysgu, a lefel y mentora a chymorth a ddisgwylir. Mae'r ffi'n amrywio o £500 i £1,000 fesul lleoliad. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddarparwyr SAU yn talu ffi i'r sefydliad sy'n croesawu. Yn yr achosion hyn, mae lleoliadau'n dibynnu ar ewyllys da ac mae gallu'r SAU i bennu amodau'r lleoliad wedi'i leihau.

Mewn ychydig iawn o achosion, crybwyllodd arweinwyr cyrsiau sefyllfaoedd lle'r oedd ansawdd y lleoliad profiad addysgu yn peri pryder. Er enghraifft, roedd hyfforddeion yn cael dosbarthiadau wedi'u hamserlennu lle'r oeddent wedi'u paru ag athro cymwysedig, mewn egwyddor, ond nid oedd yr athro cymwysedig yn bresennol ar gyfer y sesiynau, neu tynnwyd y gefnogaeth yn ôl yn rhy gyflym, a oedd yn gadael yr hyfforddai i addysgu'r dosbarth cyn ei fod/bod yn hollol barod.

**Hyfforddeion mewn swydd**

Dim ond 6% o'r hyfforddeion amser llawn oedd yn astudio mewn swydd. O'r 593 o hyfforddeion rhan-amser mewn swydd, y mae eu cefndir galwedigaethol yn hysbys, roedd y mwyafrif ohonynt (64%) wedi'u cyflogi yn y sector addysg bellach, a'r gweddill wedi'u dosrannu rhwng y sectorau ôl-16 eraill.

Ar gyfer yr hyfforddeion hynny sy'n ymgymryd â'u hyfforddiant cychwynnol mewn swydd, eu profiad addysgu yw eu rôl barhaol hefyd. Fel arfer, nid oes gan yr hyfforddeion hyn leoliadau addysgu y tu allan i'w rôl addysgu arferol. Mae hyn yn creu pos. I'r hyfforddeion hynny sy'n gweithio mewn amgylchedd cefnogol sydd â diwylliant o addysgu amrywiol o ansawdd uchel, mae eu profiad addysgu yn debygol o'u helpu i ddatblygu medrau addysgu cryf. I'r rhai nad ydynt mor ffodus, neu sy'n

gweithio mewn timau addysgu bach iawn (er enghraifft hyfforddwyr proffesiynol sydd ag un neu ddau o gydweithwyr, neu'r rhai sy'n addysgu am nifer fach o oriau mewn lleoliadau gwirfoddol neu gymunedol), efallai nad oes digon o gyfleoedd i arsylwi addysgu o ansawdd da, neu ymarfer ystod eang o fedrau addysgu, neu addysgu ystod amrywiol o ddysgwyr.

Dywed hyfforddeion ac arweinwyr eu cyrsiau fod ymgymryd â rhaglen hyfforddiant athrawon mewn swydd yn ymrwymiad sylweddol o ran amser. Mae athrawon dan hyfforddiant sy'n gweithio'n amser llawn i golegau neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn cael amserlen addysgu ychydig yn llai er mwyn ymgymryd â'u hastudiaethau. Serch hynny, dywedant fod beichiau'r cwrs, sydd fel arfer yn cael ei ddilyn yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl dechrau addysgu, yn rhagori ar yr amser sydd ar gael, ac yn gallu cael effaith niweidiol ar eu lles.

## Mentora

Yn ein trafodaethau ag arweinwyr cyrsiau a hyfforddeion, y trefniadau ar gyfer mentora ac ansawdd mentora oedd y pryder a fynegwyd yn fwyaf aml. Crybwyllodd bron pob un o'r arweinwyr cyrsiau y cyfwelwyd â nhw, mewn SABau a SAUau, fod cynnig cefnogaeth mentora o ansawdd da ar leoliad neu yn y gweithle yn drafferthus. Serch hynny, roeddent yn crybwyll bod gan lawer o hyfforddeion fentor ar leoliad neu yn y gweithle, a bod llawer o'r mentoriaid yn cynnig cefnogaeth gref ac effeithiol. Fodd bynnag, mae darparu mentoriaid ar leoliad neu yn y gweithle yn dibynnu ar ewyllys da, i raddau helaeth.

Mae pob rhaglen AGA AHO yn generig: ni chaiff addysgeg fanwl alwedigaethol neu sy'n benodol i bwnc ei haddysgu i hyfforddeion fel rhan o'u rhaglenni hyfforddiant. O ystyried bod cynnwys cyrsiau AGA AHO yn generig, mae'n dilyn bod profiad addysgu o ansawdd da a'r gefnogaeth a her sy'n cael eu cynnig gan fentor galwedigaethol neu fentor pwnc yn hollbwysig o ran helpu hyfforddeion i ddatblygu medrau addysgu pynciol neu alwedigaethol cryf.

Trwy ein trafodaethau ag arweinwyr cyrsiau a hyfforddeion, nodom ffactorau a oedd yn debygol o gyfrannu at gefnogaeth fentora gref i hyfforddeion yn y sector AGA AHO. Mae hyn yn fwyaf tebygol:

- Pan fydd gan SAUau gytundebau ffurfiol â sefydliadau lletyol, sy'n amodi math, ansawdd ac amlder y cymorth mentora sydd ei hangen.
- Pan fydd mentoriaid profiad addysgu yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn strwythuredig â thiwtoriaid rhaglenni AGA, ac mae cysylltiad cryf ynghylch cynnydd hyfforddeion.

- Pan fydd gan fentoriaid amser dynodedig i’w dreulio â hyfforddeion, a phan gânt eu rhyddhau’n ddigonol o addysgu neu ymrwymiadau eraill.
- Pan fydd mentoriaid eu hunain yn ymarferwyr galwedigaethol neu’n ymarferwyr pwnc arbenigol.
- Mewn SABau, pan fydd hyfforddeion yn cael profiad addysgu neu gyflogaeth â mentoriaid cefnogol sy’n cynnig cymorth addysgu galwedigaethol neu bynciol, a hefyd yn elwa ar ‘fentoriaid addysgu a dysgu’ y coleg – athrawon coleg â swyddogaeth datblygu proffesiynol penodol sy’n cynorthwyo athrawon cyflogedig y coleg a’r rhai sydd ar leoliadau hyfforddiant athrawon.

Yn y SAUau hynny sy’n pennu gofynion clir ar gyfer mentora yn y sefydliadau sy’n croesawu eu hyfforddeion, mae llawlyfrau a hyfforddiant ar gael i fentoriaid. Fodd bynnag, nid yw pob darparwr AU yn mynnu nac yn cynnig hyfforddiant i fentoriaid. Mewn SABau, a SAUau lle nad oes cytundebau clir ynghylch lefel y mentora sydd ei hangen ar leoliadau neu yn y gweithle, yn gyffredinol, nid yw mentoriaid yn cael eu rhyddhau o unrhyw ymrwymiadau addysgu i gynorthwyo eu hyfforddeion. Nid yw mentoriaid yn cael hyfforddiant penodol, ac efallai nad ydynt yn gwbl ymwybodol o ofynion rhaglen AGA yr hyfforddai, neu’r rôl allweddol y gall mentoriaid ei chwarae o ran meithrin datblygiad yr hyfforddai.

Yn ein grwpiau ffocws â hyfforddeion, crybwyllodd mwyafrif eu bod yn cael cymorth da gan fentor. Disgrifiodd un hyfforddai ei fentor fel “tywyswr wrth fy ochr, yn fy nghefnogi a’m herio, ac yn fy helpu i ddysgu o’m camgymeriadau”. Fodd bynnag, dywedodd y lleiafrif ohonynt nad oeddent wedi cael mentor yn y gweithle nac ar leoliad dysgu am o leiaf rhan o’u hyfforddiant.

Crybwyllodd arweinwyr cyrsiau fod darparu mentoriaid ar leoliadau yn arbennig o drafferthus ar gyfer hyfforddeion y mae eu profiad addysgu mewn lleoliadau â thimau bach, fel yn y sector gwirfoddol neu leoliadau fel y GIG neu’r lluoedd arfog.

Crybwyllodd arweinwyr cyrsiau, lle nad oes gan hyfforddeion fentor ar leoliad, eu bod yn cynnig cymorth ychwanegol pan fydd hyfforddeion yn mynychu sesiynau wedi’u haddysgu yn y coleg neu’r brifysgol. Fodd bynnag, oni bai bod gan arweinydd y cwrs neu un o’i dîm darparu wybodaeth arbenigol am y pwnc neu’r maes galwedigaethol, ni allant gynnig cymorth manwl ar yr agweddau hynny ar arfer hyfforddeion.

### Hyfforddeion sy’n addysgu neu’n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Dim ond 34 (4%) o hyfforddeion a oedd yn ymgymryd ag unrhyw ran o’u profiad addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 25 o’r hyfforddeion hyn mewn un SAB. Dim ond cyfanswm o 12 (1%) o hyfforddeion a oedd yn cwblhau agweddau ar eu cymwysterau, er enghraifft yn cyflwyno aseiniadau ysgrifenedig, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae crynhoad ystadegau Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2019, sef y flwyddyn gyfatebol o ran ein cyfrifiad (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2019) yn cofnodi bod 15.2% o’r 6,995 o athrawon addysg bellach cofrestredig wedi datgan eu bod yn rhugl neu’n weddol rugl yn y Gymraeg, a dywedodd 10.6% eu bod naill ai wedi’u hyfforddi i weithio, yn gweithio ar hyn o bryd, neu wedi gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, neu’n

teimlo’n hyderus yn gwneud hynny (t. 26). Mae’r ystadegau ar gyfer y 3,306 o ymarferwyr cofrestredig dysgu yn y gwaith yn cofnodi 11.1% a 7.7% yn ôl eu trefn (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2019, t. 38).

Felly, roedd cyfran yr hyfforddeion a oedd yn hyfforddi yn 2019, a oedd yn ymgymryd ag unrhyw agwedd ar eu profiad addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn sylweddol llai na’r gweithlu cyfoes. Nid yw’r rhagolygon hyn yn galonogol ar gyfer y dyhead o ehangu’r ddarpariaeth ôl-16 Gymraeg neu ddwyieithog, fel yr amlinellir yn strategaeth Llywodraeth Cymru*, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (Llywodraeth Cymru, 2017a, t.40).

Mae cynllun gweithredu’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi’r strategaeth hon (Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2019, t.12) yn nodi, “Mae sicrhau bod y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (Addysg Bellach) yn paratoi staff yn effeithiol ar gyfer gweithredu’n ddwyieithog yn hanfodol. Byddai nodi modelau addas o arfer gorau i wella cyfleoedd dwyieithog yn rhaglen y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (Addysg Bellach) yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu gweithlu dwyieithog.”

Mae’r cynllun gweithredu hefyd yn gwneud cynigion yn ymwneud â chymhellion: “Ymhellach, cynigiwn y dylid ystyried cymelliadau penodol i addysgu’n ddwyieithog ar gyfer y rhai sy’n gwneud y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (Addysg Bellach). Ar hyn o bryd, mae bwrsariaethau ar gael ar gyfer nifer o bynciau blaenoriaeth, felly byddai modd dilyn model tebyg ar gyfer cynnig bwrsariaethau i’r rhai fyddai’n gallu addysgu’n ddwyieithog” (Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2019, t.11).

Ar hyn o bryd, er bod cynllun cymhelliant (Llywodraeth Cymru, 2020b) i annog darpar hyfforddeion i ymgymryd â rhaglenni AGA AHO, mae’r cynllun wedi’i gyfyngu i hyfforddeion graddedig, cyn gwasanaethu sy’n eisiau ymgymryd â rhaglenni AGA amser llawn. O ddata’r cyfrifiad a gasglwyd fel rhan o’r adroddiad hwn, gwyddom mai dim ond tuag un o bob pump o gyfanswm nifer yr hyfforddeion a fyddai’n gymwys. Mae’r cynllun yn cynnig dwy lefel o daliad, sef £3,000 neu £1,000. Mae’r lefel uwch ar gael i hyfforddeion mewn pynciau penodol, gan gynnwys Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw’r cynllun yn cynnig unrhyw gymhelliant penodol i hyfforddeion a all addysgu pynciau eraill yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Rhwydweithiau proffesiynol

Yn ein trafodaethau ag arweinwyr cyrsiau, gofynnom am eu cyfranogiad mewn rhwydweithiau proffesiynol sydd â ffocws ar hyfforddiant athrawon.

At ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i arweinwyr cyrsiau a thimau cyrsiau ar draws y sector AGA AHO gyfarfod, datblygu addysgeg a rhannu arfer dda. Tra mae rhwydwaith presennol ar gyfer arweinwyr cyrsiau SAUau, nid yw’n cynnwys arweinwyr cyrsiau o SABau. Ar gyfer arweinwyr cyrsiau’r SAUau hynny sy’n perthyn i un o’r ddwy fasnachfraint fwy, mae cyfleoedd i gyfarfod â chydweithwyr yn y fasnachfraint, ond mae’r cyfarfodydd hyn yn aml yn canolbwyntio ar safoni. Nid yw arweinwyr cyrsiau mewn SABau sy’n unig ddarparwyr SAB yn eu masnachfraint yn cael cyfleoedd ffurfiol i gyfarfod â chydweithwyr AGA y tu allan i’w coleg eu hunain.

Mynegodd llawer o arweinwyr cyrsiau o SAUau a SABau rwystredigaeth o ran y diffyg strwythurau cenedlaethol neu ranbarthol cydlynol ar gyfer rhwydweithiau proffesiynol i ymarferwyr AGA AHO, a bod hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o ddiffyg cyfeiriad strategol ar draws y sector.

Mae gan arweinwyr cyrsiau mewn SAUau rwydwaith sefydledig, sef Cyngor Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon (Cymru) – USCET (Cymru). Mae is-grŵp AHO USCET (Cymru) yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn fforwm defnyddio i arweinwyr cyrsiau SAUau rannu syniadau. Nid yw arweinwyr cyrsiau SABau yn mynychu is-grŵp AHO USCET Cymru.

Mae arweinwyr cyrsiau ym mhob SAB yn sôn yn gysylltiad rheolaidd â'u harweinydd cwrs neu swyddog cyswllt yn y SAU. Mae arweinwyr cyrsiau o SABau sy'n perthyn i fasnachfraint Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd fel rhan o'u trefniadau masnachfraint, fel arfer ar gyfer cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar safoni asesiadau.

Yn ogystal â'r strwythurau ffurfiol hyn, mae rhwydweithiau anffurfiol yn bodoli mewn SABau unigol, sy'n ddigon mawr i gynnal rhwydwaith gweithredol o ymarferwyr sy'n gysylltiedig ag addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol mewn swydd. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, arweinwyr cyrsiau AGA ac aelodau tîm cyrsiau, 'mentoriaid addysgu a dysgu' y coleg (sydd â rôl ar draws y coleg yn cefnogi datblygiad athrawon) ac athrawon eraill sydd â diddordeb proffesiynol cryf mewn datblygiad athrawon.

Yn ne-orllewin Cymru, mae arweinwyr cyrsiau rhaglenni AGA o ychydig o SABau hefyd yn cymryd rhan mewn rhwydwaith dysgu proffesiynol rhanbarthol. Ffocws y grŵp hwn yw rhannu arfer dda ac adnoddau, ac addysgeg hyfforddiant athrawon a dysgu proffesiynol.

## Cynnwys y cwricwlwm

Mae'r saith SAU sy'n cynnig rhaglenni AGA AHO, naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth, yn pennu cynnwys eu rhaglenni. Ni wnaethom ddadansoddi na chymharu cynnwys cwricwlwm rhaglenni darparwyr fel rhan o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, yn ein sgyrsiau proffesiynol ag arweinwyr cyrsiau, trafodom gynnwys y cwricwlwm, i ba raddau y mae rhaglenni'n bodloni anghenion hyfforddeion, a dylanwad y safonau proffesiynol ar y cwricwlwm.

Ym mron pob un o'n sgyrsiau proffesiynol, pwysleisiodd arweinwyr cyrsiau mewn SABau a SAUau yr her o ran dylunio rhaglen AGA sy'n bodloni anghenion yr ystod eang o hyfforddeion yn y sector AHO. Mae angen i'r rhaglen fod yn ddigon hyblyg i fodloni hyfforddeion sy'n astudio ar sail amser llawn a rhan-amser, sydd mewn swydd a rhai cyn-gwasanaeth, sy'n hunanariannu neu'n cael eu hariannu gan gyflogwyr, sydd ag ystod eang o arbenigeddau pwnc neu alwedigaethol, sydd â chymwysterau academaidd blaenorol sy'n amrywio o ddyfarniadau galwedigaethol lefel 3 i raddau ôl-raddedig, ac sy'n dod o'r sbectrwm llawn o sectorau ôl-orfodol (er enghraifft o SABau, SAUau, darparwyr dysgu yn y gwaith, hyfforddwyr proffesiynol

yn y GIG, athrawon o leoliadau carchar, hyfforddwyr hunangyflogedig neu'r rhai sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol).

Mewn elfennau o gyrsiau AGA AHO sy'n cael eu haddysgu, caiff hyfforddeion sy'n ceisio cwblhau ar bob lefel o'u dyfarniad (lefel 5, 6 neu 7) eu haddysgu mewn grwpiau lefelau cymysg, yn gyffredinol. Mae'r elfen hon o raglenni AGA AHO yn cael ei gwerthfawrogi gan hyfforddeion a staff cyflwyno. Caiff lefelau gwahanol y dyfarniad eu pennu gan asesiadau crynodol modiwlaidd â meini prawf asesu gwahaniaethol, sy'n berthnasol i hyfforddeion ar bob lefel.

At ei gilydd, roedd arweinwyr cyrsiau o SABau a SAUau yn teimlo bod eu cwricwlwm yn bodloni anghenion eu hystod amrywiol o hyfforddeion, yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd ein sgyrsiau hefyd yn adlewyrchu tensiwn cynhenid yn strwythur cyfredol y system. Roedd arweinwyr cyrsiau o SAUau, sydd â hyfforddeion graddedig, cyn-gwasanaeth fel arfer, yn gwerthfawrogi'n benodol elfennau'r cwrs sy'n pwysleisio medrau 'academaidd' traddodiadol: sef datblygu dealltwriaeth ddamcaniaethol gref, ymchwil unigol, a myfyrio wedi'i seilio ar destunau academaidd. Yn nodweddiadol, roedd arweinwyr cyrsiau o SABau yn gwerthfawrogi elfennau sy'n datblygu 'pecyn' o fedrau addysgu, addysgu medrau ymarferol a galwedigaethol, a chynllunio cynlluniau dysgu. Mae'r blaenoriaethau gwahanol a fynegodd arweinwyr cyrsiau o SAUau a SABau yn adlewyrchu anghenion gwahanol eu hyfforddeion priod.

Crybwyllodd astudiaeth gwmpasu dysgu proffesiynol ôl-16 Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019) fod llawer o'r cyfweleion yn disgrifio'r rhaglenni AGA presennol yn 'draddodiadol iawn' a 'heb fod yn gyfredol', a bod angen i gymwysterau ymarferwyr adlewyrchu datblygiadau polisi mewn anghenion dysgu ychwanegol (ADY), medrau hanfodol, y fframwaith Digidol 2030 a strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yn well. Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae llawer o'r SAUau wedi ailddilysu eu rhaglenni a diwygio'r modiwlau sydd ar gael. Er y gallai'r modiwlau diwygiedig fod wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn rhannol, ymddengys bod amrywiad sylweddol rhwng darparwyr. Nododd arweinwyr cyrsiau, yn enwedig y rhai o SABau, hyfforddeion yn ein grwpiau ffocws, a rhanddeiliaid eraill y gwnaethom gyfweld â nhw, y meysydd canlynol y mae angen eu datblygu ymhellach o hyd:

- datblygu addysgeg sy'n benodol i'r pwnc, yn enwedig mewn pynciau ymarferol neu alwedigaethol
- dylunio'r cwricwlwm a chynllunio cynlluniau dysgu
- addysgeg ddigidol a dysgu cyfunol
- rheoli ymddygiad heriol dysgwyr
- cynyddu statws a defnyddio portffolio o dystiolaeth o brofiad addysgu i ddangos tystiolaeth o ddatblygu medrau addysgu a chymhwysedd addysgu
- cynllunio addysgu i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a goblygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018) a gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021b)

Crybwyllodd pob un o'r arweinwyr cwrs y siaradom â nhw o SABau fod ganddynt berthynas dda a chysylltiad cryf â'u SAUau partner. Fodd bynnag, crybwyllodd

lleiafrif ohonynt nad oedd eu SAUau partner yn ddigon ymgynghorol hefyd, yn enwedig o ran cynnwys y cwricwlwm a'r dewis o fodiwlau sydd ar gael. Nid yw'n glir i ba raddau y mae cynnwys y cwricwlwm yn gyffredinol ar draws ystod y darparwyr AGA AHO yn cael ei 'gyd-adeiladu'. Er enghraifft, nid oes llawer o dystiolaeth ar gael i werthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni AGA AHO ar effeithiolrwydd tymor hwy neu ddatblygiad gyrfa hyfforddeion, ac ychydig iawn o ddarparwyr sydd wedi ymgynghori'n ffurfiol â chyflogwyr yn y sectorau y daw eu hyfforddeion ohonynt ynghylch cynnwys y cwricwlwm.

## Safonau proffesiynol

Crybwyllodd yr holl arweinwyr cyrsiau SAUau fod eu rhaglenni wedi'u datblygu drwy ystyried y *Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon Addysg Bellach ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2017b). Roedd pob un ohonynt wedi cynnal 'ymarfer mapio', o leiaf, i ddarganfod lle'r oedd y safonau a chynnwys eu cwricwlwm yn croesi ar draws ei gilydd. Disgrifiodd ychydig ohonynt eu bod yn defnyddio'r safonau mewn briffiau aseiniadau fel y gallai hyfforddeion nodi sut roedd eu gwaith yn cysylltu â'r safonau. Ni chrybwyllodd unrhyw un ohonynt eu bod yn defnyddio'r safonau fel man cychwyn ar gyfer llunio eu rhaglenni neu gynnwys y cwricwlwm.

Crybwyllodd ychydig o arweinwyr cyrsiau SAUau eu bod yn ystyried *UK Professional Standards Framework for teaching and supporting learning in higher education: professional standards for HE practitioners* (AdvanceHE, 2011) hefyd. Crybwyllodd ychydig o arweinwyr cyrsiau a oedd â hyfforddeion a oedd yn debygol o weithio yng Nghymru a Lloegr eu bod yn ystyried *Professional Standards for Teachers and Trainers in Education and Training* (Education and Training Foundation, 2014) Education and Training Foundation hefyd, sef y safonau agosaf yn Lloegr at y safonau proffesiynol cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'n amlwg o'n sgyrsiau ag arweinwyr cyrsiau bod ceisio cwmpasu ystod y safonau proffesiynol wrth ddylunio eu rhaglenni yn ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod at dasg sy'n eisoes yn heriol.

## Statws athro cymwysedig

Nid yw hyfforddeion sy'n cwblhau rhaglenni AGA AHO, p'un a ydynt yn cwblhau'r TBA (lefel 4/5/6), TBAR (lefel 5/6) neu'r TAR (6/7), a ph'un a ydynt yn raddedigion neu beidio, yn gymwys i gael SAC (gweler Llywodraeth Cymru, 2021a) a gweithio fel athrawon cymwysedig mewn ysgolion a gynhelir. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw lwybr cydnabyddedig i 'drosi' o gymhwyster AGA AHO i gymhwyster AGA sy'n rhoi SAC. Nid oes gan hyfforddeion sy'n cwblhau rhaglenni AGA AHO yn llwyddiannus hawl gyffredin ychwaith i gyfnod sefydlu, fel y caiff y rheiny sy'n cwblhau'u cymwysterau AGA yn y sector gorfodol.

Nododd arweinwyr cyrsiau fod y mater hwn yn un hirsefydlog a dadleuol mewn AGA AHO, gan fod athrawon sy'n hyfforddi yn y sector gorfodol a gynhelir ac yn ennill SAC yn cael eu hystyried yn gymwysedig i addysgu mewn colegau AB a lleoliadau ôl-16 eraill, ond nid i'r gwrthwyneb. Roedd amrediad o safbwyntiau o ran p'un a oedd

hyn o bwys. Yn ein grwpiau ffocws â hyfforddeion cyfredol, mynegodd cyfranogwyr safbwyntiau a oedd yn amrywio o: “Nid yw SAC yn bwysig i mi. Dwi eisiau gweithio yn y sector ôl-16 yn unig, felly dydw i ddim yn poeni”; i “Mae peidio â chael SAC yn awgrymu bod gennym ni statws is am wneud yr un swydd, mewn gwirionedd. Dylen ni gael SAC!”

Roedd yr holl arweinwyr cyrsiau y siaradom â nhw yn cydnabod nad oedd y gofynion mynediad presennol a chynnwys cyrsiau rhaglenni AGA AHO yn gyfwerth â rhaglenni AGA ar gyfer y sector gorfodol. Serch hynny, teimlant na fyddai’n briodol addasu’r rhaglen i alluogi hyfforddeion i fodloni gofynion SAC, yn enwedig gan fod rhaglenni AGA AHO yn bodloni hyfforddeion sy’n arbenigwyr galwedigaethol nad ydynt yn raddedigion.

Roedd bron pob un o’r hyfforddeion a’r arweinwyr cyrsiau yn cytuno y byddai llwybr i ennill SAC ar ôl cwblhau rhaglen AGA AHO yn ddatblygiad defnyddiol.

## Hunanwerthuso a throsolwg allanol ar ansawdd

Mae’r holl SAUau, a’u colegau masnachfraint neu bartner, yn defnyddio prosesau sefydledig, gan gynnwys defnyddio arholwyr allanol, i sicrhau bod asesiadau crynodol yn deg ac yn gyson. Er nad oedd y prosesau hyn yn ffocws ar gyfer ein sgyrsiau ag arweinwyr cyrsiau, nid oedd unrhyw awgrym gan unrhyw gyfranogwyr nad oedd y prosesau hyn yn gweithio’n effeithiol.

Mae arweinwyr cyrsiau o ddarparwyr unigol yn adnabod eu darpariaeth yn dda, ac roeddent yn gallu mynegi’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella o’u rhaglenni. Rydym wedi adlewyrchu’r rhain drwy’r themâu sy’n dod i’r amlwg yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth systematig sydd ar gael am y sector yn ei gyfanrwydd, ac roedd bron pob un o’r arweinwyr cyrsiau yn cydnabod bod hyn yn cyfyngu ar eu gallu, boed hynny’n unigol neu’n gyfunol, i werthuso perfformiad y sector. Crybwyllodd ychydig ohonynt fod y diffyg trosolwg ar draws y sector yn golygu ei bod yn anodd gwerthuso eu darpariaeth y tu hwnt i’w safbwynt eu hunain. Dywedodd un arweinydd cwrs, “Sut ydw i fod i wybod pa mor dda rydw i’n ei wneud os nad ydw i’n gwybod beth mae unrhyw un arall yn ei wneud?”

Ar hyn o bryd, er bod Estyn yn arolygu addysg gychwynnol athrawon yn y sector gorfodol, nid yw Estyn na QAA yn cynnal arolygiad rheolaidd nac adolygiad ansawdd allanol arall o ddarpariaeth AGA AHO. Mae hyn yn cyfrannu at y diffyg gwybodaeth gyhoeddedig am ansawdd y sector yn ei gyfanrwydd i ategu gwelliant.

# Atodiad – Dulliau a sail y dystiolaeth

Cynhaliwyd yr holl weithgarwch samplu rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2021.

Gwahoddom arweinwyr cyrsiau o bob darparwr, sef SAUau a SABau, rhaglenni AGA AHO i lenwi holiadur ‘cyfrifiad’ yn manylu ar nifer yr hyfforddeion ar eu rhaglenni ym mis Hydref 2019. Dewisom y dyddiad hwn gan ei fod cyn y pandemig COVID-19, ac felly rydym yn gobeithio osgoi unrhyw batrymau recriwtio neu gadw anarferol oherwydd y pandemig. Dychwelodd pob un o’r darparwyr yr holiadur, a oedd yn golygu, heblaw am rai cwestiynau heb eu hateb neu ddata anhysbys mewn ychydig o gwestiynau, bod gennym ddarlun llawn o nifer yr hyfforddeion ym mis Hydref 2019. Sylwch, gan nad yw data cenedlaethol ynghylch nifer yr hyfforddeion ar raglenni AGA AHO yn cael ei gasglu na’i goladu’n rheolaidd (Llywodraeth Cymru, 2019), nid oeddem wedi gallu gwirio na chroesgyfeirio data ein harolwg â ffynonellau swyddogol. Ni chynhaliom unrhyw ymweliadau yn bersonol ag unrhyw ddarparwyr fel rhan o’r astudiaeth hon.

Cawsom gadarnhad gan y Brifysgol Agored nad oes ganddynt hyfforddeion AGA AHO yng Nghymru, a chan Addysg Oedolion Cymru a Choleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant nad ydynt yn cynnig rhaglenni AGA AHO.

Gofynnom i ddarparwyr roi trosolwg i ni o’u darpariaeth bresennol (2021), gan nodi ystod y rhaglenni AGA a gynigir (TAR/TBAR/TBA), eu dulliau cyflwyno (rhan-amser neu amser llawn) ac, i SABau, a oeddent yn gweithredu trwy drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SAU. Dywedodd un SAU (Prifysgol Caerdydd), sy’n cynnig darpariaeth AGA AHO fel arfer, nad oedd yn cynnig darpariaeth AGA AHO yn ystod 2020-2021 a 2021-2022 oherwydd heriau yn sgil y pandemig. Serch hynny, cynhwysom y darparwr hwn yn ein tabl cryno o ddarparwyr presennol (Tabl 1) er mwyn rhoi darlun llawn.

Mae 11 SAB sy’n cynnig rhaglenni AGA AHO fel rhan o drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SAUau. Cynhaliom sgyrsiau proffesiynol lled-strwythuredig ag arweinwyr cyrsiau, aelodau o’r timau cyflwyno, a rheolwyr o saith o’r SABau hyn. Mae saith SAU yn cynnig rhaglenni AGA, naill ai drwy ddarpariaeth uniongyrchol neu fel rhan o drefniadau masnachfraint neu bartneriaeth â SABau. Siaradom ag arweinwyr cyrsiau o’r saith SAU. Siaradom hefyd ag arweinydd cwrs o Brifysgol Caer, nad oes ganddi hyfforddeion AHO yng Nghymru, ond sy’n aelod o is-grŵp AHO USCET Cymru.

Trwy negeseuon e-bost a anfonwyd ymlaen yn garedig gan arweinwyr cyrsiau, gwahoddom hyfforddeion sy’n astudio ar raglenni ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws ar-lein i drafod eu profiadau o astudio ar raglenni AGA AHO. Mynegodd 21 o hyfforddeion ddiddordeb mewn cymryd rhan. Cynigiom gyfle i’r holl hyfforddeion a fynegodd ddiddordeb gymryd rhan mewn grŵp ffocws ar-lein. Cymerodd cyfanswm o naw o hyfforddeion ran mewn dau grŵp ffocws ar-lein ym mis Mehefin 2021.

Siaradom ag is-grŵp AHO USCET Cymru, cynrychiolwyr o Colegau Cymru, ac Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru.

Hoffem ddiolch i’r holl gyfranogwyr a lenwodd holiaduron, a gymerodd ran mewn sgyrsiau proffesiynol neu a ymunodd â grwpiau ffocws am eu cyfraniad i’r adroddiad hwn.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Addysg orfodol** | Addysg o 5 i 16 oed, mewn ysgolion fel arfer. |
| **Credyd** | Mae hyn yn ymwneud â maint y modiwl. Fel arfer, mae gan raglenni TAR, er enghraifft, ddeilliannau modiwl o 60 credyd ar lefel 6 a 60 credyd ar lefel 7. |
| **Cyn gwasanaethu** | Hyfforddi tra nad yw'n gweithio yn un o'r sectorau AHO. |
| **Darpariaeth drwy fasnachfraint** | Pan fydd SAB yn cynnig rhaglen AGA drwy drefniant partneriaeth masnachfraint â SAU. Yn gyffredinol, mae hyfforddeion yn cofrestru fel myfyrwyr yn y SAB a'r SAU, fel ei gilydd. Mae hyfforddeion yn mynychu blociau o sesiynau theori yn y SAB a lleoliadau profiad addysgu yn y SAB neu ddarparwr arall. Staff y SAB sy'n cyflwyno'r hyfforddiant ac yn asesu'r deilliannau, ac mae'r SAU yn sicrhau ansawdd yr asesu a gwasanaethau eraill. Yn y pen draw, caiff dyfarniad yr hyfforddai ei achredu a'i gyhoeddi gan y SAU. |
| **Darpariaeth uniongyrchol** | Mae hyfforddeion yn cofrestru'n uniongyrchol â SAU ac yn mynychu blociau o sesiynau theori yn y SAU. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyfforddeion yn mynychu lleoliadau profiad addysgu wedi'u trefnu gan y SAU mewn sefydliadau addysg bellach (SABau). Mae mwyafrif yr hyfforddeion ar y rhaglenni hyn yn astudio rhaglenni amser llawn sy'n para blwyddyn. |
| **Hyfforddeion** | Ymarferwyr sy'n astudio ar raglenni AGA AHO. |
| **Mewn swydd** | Hyfforddi wrth weithio yn un o'r sectorau AHO. |
| **Modiwl** | Uned astudio ar raglen AGA. Caiff modiwlau eu hasesu gan ddefnyddio meini prawf ar lefel 4, 5, 6 neu 7, yn dibynnu ar gynnwys y modiwl, p'un a yw'r modiwl yn cael ei ddilyn ym Mlwyddyn 1 neu Flwyddyn 2 rhaglen ran-amser, cymwysterau blaenorol yr hyfforddai, a nod cyffredinol yr hyfforddai ar gyfer y cwrs (TBA, TBAR neu TAR). Fel arfer, bydd hyfforddai sy'n cwblhau rhaglen wedi cwblhau ystod o fodiwlau ar lefelau gwahanol. |
| **Profiad addysgu** | Yr elfen o raglen AGA hyfforddai sy'n cynnwys addysgu dysgwyr. Bydd hyn yn amrywio, yn amodol ar bwnc neu gefndir galwedigaethol yr hyfforddai, a'r sector y mae'n cwblhau ei hyfforddiant ynddo. |

| | |
|---|---|
| **Rhaglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA)** | Y prif gymwysterau addysg a hyfforddiant i'r rhai sydd eisiau addysgu yn y sector AHO yng Nghymru. Mae rhywfaint o amrywiad rhwng darparwyr o ran union deitlau'r dyfarniadau ond, yn gyffredinol, y cymwysterau AGA AHO yw'r TAR, y TBAR a'r TBA. |
| **Sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO)** | Y sectorau dysgu oedolion yn y gymuned, dysgu yn y gwaith, addysg uwch, cyfiawnder, ac addysg bellach; hyfforddwyr proffesiynol mewn lleoliadau fel y GIG, yr heddlu, y lluoedd arfog, codi a chario, a chymorth cyntaf; ymarferwyr yn y sector gwirfoddol ac ymarferwyr annibynnol, fel y rhai sy'n cynnig hyfforddiant cerddoriaeth preifat neu hyfforddiant ioga. |
| **Ymarferwyr** | Mae'r sectorau gwahanol yn y sector ôl-16 yn defnyddio ystod o dermau gwahanol, fel athro/athrawes, tiwtor, hyfforddwr, darlithydd, cynghorydd hyfforddiant a llawer o rai eraill. Yn yr adroddiad hwn, defnyddiwn 'ymarferydd' yn gyffredinol i ddisgrifio pawb sy'n cyflwyno ac yn cefnogi dysgu a chynnydd dysgwyr. |

## Rhifau – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

AdvanceHE (2011) *UK Professional Standards Framework for teaching and supporting learning in higher education: professional standards for HE practitioners*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.advance-he.ac.uk/guidance/teaching-and-learning/ukpsf [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2019) *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg*. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/2015colegcymraeg/dogfennau/s-2210/tuagatcymraeg2050.pdf [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Cyngor y Gweithlu Addysg (2019) *Crynodeb Ystadegau 2019*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ymchwil-ac-ystadegau/ystadegau-r-gweithlu-addysg.html

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021a) *Gwneud Cais i Gofrestru* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/cofrestru/gwneud-cais-i-gofrestru.html [Cyrchwyd 17 Medi 2021]

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021b) *Achredu addysg gychwynnol athrawon*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/achredu-aga/achredu-addysg-gychwynnol-athrawon.html [Cyrchwyd 18 Awst 2021]

Education and Training Federation (2014) *Professional Standards for Teachers and Trainers – England*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.et-foundation.co.uk/supporting/professional-standards [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Estyn (2018a) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2017-2018*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Estyn_Annual%2520Report_Accessible_Welsh_2018.pdf [Cyrchwyd 18 Awst 2021]

Estyn (2018b) *Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/y-continwwm-dysgu-proffesiynol-mentora-mewn-addysg-gychwynnol-athrawon [Cyrchwyd 18 Awst 2021]

Estyn (2019) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2018-2019 [Cyrchwyd 18 Awst 2021]

Estyn (2020) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019-2020*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2019-2020 [Cyrchwyd 18 Awst 2021]

Furlong, J. (2015) *Addysgu athrawon yfory: opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/adolygiad-o-hyfforddiant-cychwynnol-athrawon-2015-addysgu-athrawon-yfory [Cyrchwyd 18 Awst 2021]

Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (2018) *Ymarfer cwmpasu NTfW ynglŷn â'r posiblrwydd o ddatblygu cymhwyster newydd ar gyfer ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith*.

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/04ac1db8-f5e0-4797-a806-89e9039b48eb/safonau-proffesiynol-athrawon-addysg-bethach-ymarferwyr-dysgu-seliedig-ar-waith-nghymru.pdf [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/ [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2018) *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).* [Ar-lein]. Ar gael yn https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru [Cyrchwyd 16 Medi 2021]

Llywodraeth Cymru (2019) *Astudiaeth Gwmpasu Dysgu Proffesiynol Ôl-16: Adroddiad Terfynol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/astudiaeth-gwmpasu-dysgu-proffesiynol-ol-16-adroddiad-terfynol.pdf [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Bwletin Ystadegol SB 19/2020, Addysg Gychwynnol Athrawon Cymru, Medi 2018 i Awst 2019*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/addysg-gychwynnol-i-athrawon-medi-2018-i-awst-2019 [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Cymhelliannau hyfforddi athrawon yng Nghymru – blwyddyn academaidd 2020/21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/cymhellion-hyfforddi-athrawon-blwyddyn-academaidd-2020-i-2021.pdf [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2021a) *Sut i ennill statws athro cymwysedig (SAC) i addysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/statws-athro-cymwysedig-sac [Cyrchwyd 19 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2021b) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf [Cyrchwyd 16 Medi 2021]

Llywodraeth Cymru (2021c) *Llywodraeth Cymru: Rhaglen Lywodraethu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.pdf [Cyrchwyd 16 Medi 2021]

Tabberer, R. (2013) *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/adolygiad-o-hyfforddiant-cychwynnol-athrawon-hca-2013-gan-yr-athro-ralph-tabberer [Cyrchwyd 18 Awst 2021]